Y Soned: Deffro

Pum ymgais a dderbyniwyd y tro hyn. Mae'r soned fel ffurf yn dal ei thir yn y byd barddol, ac yn wir y mae yna nifer o feirdd heddiw sy'n dipyn o feistri arni. Mae gan bawb yn y gystadleuaeth hon syniad eitha da beth sy'n gwneud soned. Gwastad yw'r safon, unwaith eto, ac anodd fu dewis un oedd yn rhagori ar y lleill. Felly, unwaith eto, nid oes ymdrech i'w gosod yn ôl trefn teilyngdod.

Llysfaen: Y mae gan y bardd hwn y gallu i gyfansoddi soned lân, grefftus. Darlunio'r deffro sy'n digwydd adeg y gwanawyn y mae o. A dyna fo, a dweud y gwir. Y tu hwnt i'r disgrifiadol, does dim haenau eraill i'w canfod yn y gerdd.

Ellis: Mae rhywbeth yn annisgwyl am y soned hon. Ei thestun yw plasdy Penyberth yn Llŷn – lle enwog fel cyrchfan beirdd dros y canrifoedd, rhywle oedd yn cyfri i Gatholigion a phererinion Enlli ac wrth gwrs tir a welodd y Tân yn Llŷn yn ôl yn 30au'r ganrif ddiwethaf. Y cwpled clo sy'n annisgwyl

> Mae Gŵyl Penyberth* heddiw'n deffro'r haf
> Er cof am Dân yn Llŷn a'r dyddiau braf.
> *Gŵyl Wakestock

Dyma fardd arall sy'n gwybod sut mae llunio soned.

Maria: Hanes eglwys Sant Teilo, Llandeilo Talybont, a geir yn y soned hon. Hon yw'r eglwys a symudwyd o lannau Llwchwr i'r Amgueddfa yn San Ffagan. Mae deffroad yma yn amlwg felly. Nid wyf yn gwbl hapus â rhythm y llinell olaf ond un. Ond dyma soned ddifyr a digon crefftus unwaith eto.

Ardwyniad: Yn anffodus mae ail linell y soned hon yn hollol amhersain a chloff. Heblaw am hynny, dyma soned grefftus arall gan fardd sy'n gwybod be di be. Mae rhywbeth yn drist drwy'r gerdd er gwaethaf dyfodiad y gwanwyn a'i dywydd gwell, unwaith eto. Hudo dieithriaid a wna'r tywydd hwn i'r Borth ac Ynys Las. A gyda'r nos mae'r bardd yn clywed clychau Cantre'r Gwaelod a dyddiau gwell.

Menna Lili: Er nad yw hon yn well soned na rhai o'r lleill, y mae ynddi lai o wendidau ac mae hi'n grefftus lân. Nid yw'n dweud hynny yn uniongyrchol, ond credaf mai cerdd am effeithiau Brexit ydi hi – felly, mae hi'n amserol yn hynny o beth. A hi sy'n ennill.

Dafydd J. Pritchard